Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod [zoom] a gynhaliwyd ar yr 8fed Dachwedd 2021

Presennol– Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones, Janet Charlton, Beth Thomas, Catherine Wiilams, Mari E M Mathews, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Neil Pringle

Datgan diddordeb. Dim datganiad.

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 11eg Hydref 2021

Materion yn codi

(1) Yr Heddlu
Nid oedd yr heddlu'n bresennol. Y clerc I gysyltu gyda SCHG Delia Bellis i geisio crynodeb o'r sefyllfa ddiweddara.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair
Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts ei bod yn parhau i aros am sylwadau Dylan Jones o Adran Traffic y Cyngor BS Conwy

[1.2] Pont –y-Mwynwyr
Nodwyd yr amserlen ddiweddara gan y Cyng Elisabeth Roberts.
Codi'r bont i'w lle 6ed Ionawr 2022
Ail agor y llwybr 31ain Ionawr 2022

[1.3] Cyngor BS Conwy/Toiledau Ffordd yr Orsaf
Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn disgwyl ateb gan Steven Teale Cyngor BS Conwy ynglŷn â'r toiledau. Cytunodd y Cyng E Roberts i atgoffa Mr Teale.

[1.4 Camerâu Cylch Agos Pentre' Du
Nodwyd yr ymddiheuriad gan Gyngor BS Conwy am yr oedi i ymholiad y Cyngor Cymuned.

[1.5] Atgyweirio'r Neuadd Goffa
Eglurodd y Cadeirydd, fod y Cyngor Cymuned yn parhau i aros am ateb gan Bethan Wyn Jones y Cyngor Sir

[1.6] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy
Nodwyd bod gwybodaeth pellach ynlgyn a chaniatâd cynllunio ar y gweill gan APCA,

[1.7] Caffi 'r Rheilffordd Fach
Dywedodd y clerc nad oedd ateb wedi ei dderbyn oddiwrth y perchennog ynlgyn a chyflwr y caffi. Eglurodd y Cyng E Roberts hefyd nad oedd ateb wedi ei dderbyn i'r ymholiad ynlgun a'r safonau glendid ayb gan Gyngor BS Conwy.

[1.8] Materion Parcio Bro Gethin
Deallwyd bod ymholiad y Cyngor Cymuned wedi ei anfon ymlaen i sylw Rheolwr Cartrefi Conwy Ms Katie Woods.

[1.9] APCE Plannu Coed
Dywedodd y Cyng E Roberts y byddai'n cysylltu gyda Mr Rhydian Roberts APCE ynlgyn a'r trefniadau.

[2.]Llystyfiant Pont-y-Pair
Eglurodd y clerc fod Cyngor BS Conwy yn ceisio cyngor a phenderfyniad CADW ynglŷn â gwneud gwaith ar adeilad hynafol

[2.1] Dyn mewn Fan
Nodwyd bod y Cyng Neil Pringle yn bwrw mlaen gyda'r mater.

[2.2]Ynys y Ffynidwydden/ Afon Llugwy
Dywedodd y clerc bod CNC yn tybio mai Cyngor Sir Conwy oedd yn berchen yr ynys . Y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater.

Y Brif Agenda
[2.3] Materion Cynllunio
Codi estyniad unllaw'r Bwthyn Pen -yr-Allt Betws-y-Coed
Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod.

[2.4] Materion Ariannol
[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc ar gyfer y cyfnod 1/10/21 -31/10/21
[b] Dywedodd y clerc fod ffigyrau mynediad i'r Rhaeadr Ewynnol yn uwch i gymharu â mis Hydref2020

[2.5] Arwyddion "Dim Parcio" Garth Dderwen
Nodwyd bod Cyngor BS Conwy wedi cysylltu gyda'r perchennog yn gorchmynn iddo symud y cerrig ar fin y ffordd sydd yn atal i foduron barcio. Disgwylir gwybodaeth pellach ynlgyn ar arwyddion

[2.6] Baw Cwn/ Pentre Du
Deallwyd bod pryderon yn parhau ynglyn a baw cwn, y clerc i geisio bin wrth yr ysgol.

[2.7] Cyfarpar Chwaraeon /Cae Chware Pentre Du
Penderfynwyd talu 'r gost am gyfarpar chwaraeon yn amodol ar y pris, a hefyd fod y Cyngor Sir yn cytuno i dalu am y gynhaliaeth ar archwiliadau ynglŷn â diogelwch y cyfarpar.

Gareth Wynne, Cadeirydd